

CHYMDEITHAS Y CYMOD  
YNG NGHYMURU

THE FELLOWSHIP OF  
RECONCILIATION IN WALES

Hoffwn gael rhagor o wybodaeth am  
Gymdeithas y Cymod.

I would like further information about the  
Fellowship of Reconciliation in Wales.

Enw / Name

Cyfeiriad / Address

Ffôn / Phone

E-bost / E-mail


Anfoner at / Please send to:

Cymdeithas y Cymod,  
d/o 3 Tai Minffordd, Rhostryfan,  
Caernarfon, Gwynedd LL54 7NF.

Cymdeithas y Cymod

Fellowship of Reconciliation  
in Wales


Cefnogi Ffoaduriaid  
yng Nghymru



[www.cymdeithasycymod.org.uk](http://www.cymdeithasycymod.org.uk)

Elusen gofrestredig 700609

Gyda'n gilydd gweithiwn dros  
gyfiawnder a thangnefedd



Mae Confensiwn Ffoaduriaid  
Genefa 1951 newydd ddathlu ei  
benblwydd yn hanner cant.  
Cytunodd y gwledydd sy'n derbyn  
y Confensiwn i roi lloches i bobl  
nad oedd yn perthyn i'r wlad.  
Roedd y Confensiwn am warchod  
pobl oedd wedi dianc rhag  
erledigaeth ac nad oedd yn gallu  
defnyddio cymorth eu  
gwladwriaeth eu hun. Byddai'r bobl  
hyn yn ofni am eu bywyd - gan eu  
bod nhw'n cael eu herlid ar sail hil,  
crefydd, cenedligrwydd, neu gan  
eu bod yn aelod o gymdeithas  
arbennig neu'n cynrychioli barn  
wleidyddol.

## **Cymdeithas y Cymod a Ffoaduriaid yng Nghymru**

Ym 1999, penderfynodd Cell Caerdydd o Gymdeithas y Cymod bod rhaid cefnogi'r pum mil o ffoaduriaid oedd i ddod i Gaerdydd. Bryd hynny fe benderfynodd y llywodraeth yn San Steffan bod angen dosbarthu ffoaduriaid o'r Canolfannau gorlawn yn Lloegr i Gymru a'r Alban.

## **Ffoaduriaid dan glo yng Ngharchar Caerdydd**

Daeth newyddion bod ffoaduriaid yn cael eu cadw dan glo yng Ngharchar Caerdydd, rhai heb sefyll eu prawf eto. Cafodd Cymdeithas y Cymod hawl i fynd i'r carchar i ymweld â nhw o dan nawdd y Cenhedloedd Unedig. Ym mhen dim amser cawson nhw eu symud oddi yno.

## **Sgwrs gan Ruth Gwilym o Gyngor y Ffoaduriaid**

Hydref 2003 daeth wyneb newydd Ruth Gwilym i weithio i Gyngor y Ffoaduriaid fel Gweithiwr Prosiect. Daeth hi â Linda, mam i bedwar o blant o'r Congo i siarad â ni. Siaradon nhw am geiswyr lloches, merched yn bennaf sy wedi cyrraedd Cymru ac yn wynebu tloedi enbyd, diffyg to uwch eu pen heb wybod lle i droi. Roedd rhai wedi gwneud cais am dŷ ond yn y cyfamser yn ddi-gartref, rhai â thŷ ond dim dimai goch i fyw ganddynt. Mae ofn gwirionedd ar lawer o'r ffoaduriaid hyn na fyddan nhw'n cael lloches ac y byddan nhw'n cael eu hanfon nôl i'w gwlad - gwlad mae'r Cenhedloedd Unedig yn cydnabod sy'n rhy beryglus i fynd nôl iddi. Roedd Linda'n siarad o'i phrofiad ei hun a'i geiriau'n cael effaith dirdynnol arnom ni.

## **Cefnogaeth i Ffoaduriaid Caerdydd**

Roedd llawer o'r ffoaduriaid yn cyrraedd o wledydd twym heb ddillad i wynebu'r gaeaf oer. Cawsom gais i gasglu cotiau gwresog y mis hwnnw ac wedyn buom yn casglu bwydydd fel pasta, angenrheidiau menywod a dillad baban.

Erbyn hyn mae dwy eglwys Gymraeg yn y cynllun ac ry'n ni'n cydweithio â mudiad 'Enfys' sy'n dosbarthu'n benodol i'r ffoaduriaid.

Yng Nghaerdydd ar hyn o bryd, mae'r Parch Aled Edwards yn gweithio gyda Cytûn yn gynrychiolydd i'r Cynulliad. Hefyd, mae Stephen Thomas, Ysgrifennydd Cymdeithas y Cenhedloedd Unedig yn y Deml Heddwch yn cadw llygad barcud ar sefyllfa'r ffoaduriaid.

**Bwriad Cymdeithas y Cymod, gyda help yr eglwysi yw sicrhau bod amodau Siarter Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig yn cael eu gweithredu'n llawn yng Nghymru.**